ADRODDIAD 2022



# HAF O HWYL

Roedd menter Haf o Hwyl yn cynorthwyo plant ifanc a phobl ifanc ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol.

Haf o Hwyl
Summer of Fun

Caerphilly County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government



# HAF O HWYL

Darparodd menter Haf o Hwyl weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn Gymraeg ac yn Saesneg. Eleni, roedd gweithgareddau am ddim yn cynnig cymorth i'n pobl ifanc a'n teuluoedd ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda chostau byw cynyddol.

Roedden ni'n cynnig amrywiaeth enfawr o weithgareddau am ddim, o weithgareddau chwarae ac adloniadol i weithgareddau chwaraeon a hamdden a gweithgareddau diwylliannol. Cymerodd ein pobl ifanc ran mewn rhwyf-fyrddio, gweithdai dylunio ffasiwn, tripiau undydd i'r teulu, gwersylloedd chwaraeon, sesiynau crefft, adrodd straeon, cerdded ceunentydd, gweithdai drwy gyfrwng y Gymraeg a llawer mwy.

Gweithion ni mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i ddarparu Haf o Hwyl, Caerffili. Roedd hyn yn cynnwys: Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor, Teuluoedd yn Gyntaf, Dull Byw Hamdden, Menter Iaith Sir Caerffili, Rhwydwaith Rhieni, Gwirfoddolwyr Rhisga, Chwaraeon Caerffili, The Parish Trust ac Urdd Gobaith Cymru.



# TEULUOEDD YN GYNTAF

**260 O BLANT**

**64 O SESIYNAU**

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Cymerodd 260 o blant, rhwng 5 a 25 oed, ran mewn 64 o sesiynau gwahanol yn ystod yr haf a gafodd eu darparu gan Deuluoedd yn Gyntaf.
- Roedd y gweithgareddau'n cynnwys mynd ar ddiwrnodau antur, sesiynau ymgysylltu â theuluoedd, sesiynau ar gyfer gofalwyr ifanc a gweithgareddau antur awyr agored.
- Cafodd gweithgareddau eu trefnu er mwyn targedu teuluoedd agored i niwed sy'n derbyn neu'n defnyddio'r ddarpariaeth Gwasanaethau i Blant neu Deuluoedd yn Gyntaf ar gyfer rhieni a phlant cymwys.



# Y BLYNYDDOEDD CYNNAR
## *CHWARAE YN Y PARC*

**1121 O BLANT**

**6 O SESIYNAU**

### GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Cymerodd 1,121 o blant ac 849 o oedolion ran yn y chwe sesiwn 'chwarae yn y parc' a gafodd eu darparu ym Mharc Rhymni, Parc Morgan Jones, Parc Ystrad Mynach, Parc Bargoed, Parc Waunfawr a Maes y Sioe, Coed Duon.
- Cafodd gweithgareddau syml eu darparu yn ystod y sesiynau a allai gael eu hail-wneud gartref. Roedd y rhain yn cynnwys: chwarae anniben gan ddefnyddio sleim a thoes chwarae, chwarae â dŵr, chwarae archwilio a synhwyraidd i fabanod, gweithgareddau celf a chrefft, gwneud gemwaith o rawnfwyd a llinyn a gweithgareddau chwaraeon a gafodd eu darparu gan Ddatblygu Chwaraeon.





# CHWARAEON CAERFFILI

**2860 O BLANT**

**24 O SESIYNAU**

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

- 24 o wahanol weithgareddau wedi'u darparu gan y Tîm Datblygu Chwaraeon trwy gydol gwyliau'r ysgol ar wahanol ddyddiau ac amseroedd bob wythnos.
- 2,860 o blant wedi cymryd rhan mewn gwersylloedd chwaraeon drwy gydol yr haf.

## RHESTR LAWN O WEITHGAREDDAU:

- Gwersyll Athletau’r Haf: 70 o gyfranogwyr.
- Gwersylloedd Chwaraeon Bargod : o gyfranogwyr.
- Gwersyll Clwb Golff Coed Duon: o gyfranogwyr.
- Gwersyll Criced Tref Coed Duon: 110 o gyfranogwyr.
- Bowlio i wella lles: o gyfranogwyr.
- Bocsio (Cwmcarn a Bargod): 350 o gyfranogwyr.
- Cwpan Hoci Caerffili: 35 o gyfranogwyr.
- Hoci i Blant Iau Caerffili: 35 o gyfranogwyr.
- Gwersylloedd Chwaraeon Tref Caerffili: 300 o gyfranogwyr.
- Gwersyll Criced Crymlyn: 180 o gyfranogwyr.
- Marchogaeth ceffylau i bobl ag anabledd: 25 o gyfranogwyr.
- Tripiau undydd i bobl ag anabledd: 12 o gyfranogwyr.
- Beicio Teuluol gyda Risca Riders: 240 o gyfranogwyr.
- Prosiect Ymyrraeth Deuluol: 14 o gyfranogwyr.
- Sesiynau lles i'r teulu: 150 o gyfranogwyr.
- Gŵyl Bêl-droed i Ferched: 76 o gyfranogwyr.
- Haf Hoci 7: 45 o gyfranogwyr.
- Kidzfit gyda SJ Fitness: 35 o gyfranogwyr.
- Gwersylloedd Chwaraeon Llanbradach: 229 o gyfranogwyr.
- Gwersylloedd Chwaraeon Maes-y-cwmwr: 118 o gyfranogwyr.
- Gwersylloedd Chwaraeon Rhymni: 103 o gyfranogwyr.
- Rownderi yn y parc: 40 o gyfranogwyr.
- Sesiynau Awn Amdani Ferched i bobl ifanc: 200 o gyfranogwyr.
- Sesiynau cyrraedd a chwarae : 86 o gyfranogwyr.


CAERPHILLY
JUNIORS
HOCKEY
HOCKEY HUB
Mwy o bobl, mwy egnïol, mwy
More people, more active, more
Sport Caerphilly
Chwaraeon Caerffili
HOCKEY
SUMMER 7'S



# GWASANAETH IEUENCTID

**404 O BLANT**

**66 O SESIYNAU**

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Cymerodd 404 o blant, rhwng 11 a 25 oed, ran mewn 66 o sesiynau gwahanol yn ystod yr haf a gafodd eu darparu gan Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor.
- Roedd pobl ifanc sy'n agored i niwed, a oedd yn mynychu darpariaeth y tu allan i oriau ysgol, yn gallu cael mynediad at weithgareddau a phrofiadau na fydden nhw wedi bod ar gael fel arall.
- Roedd y gweithgareddau'n cynnwys gwaith tebyg i glybiau ieuenctid, gweithgareddau ar y stryd, ymweliadau addysgol oddi ar y safle gan gynnwys gweithgareddau gwersylla a darpariaeth gymunedol LHDTC+.





# RHWYDWAITH RHIENI

## *DIWRNOD ALLAN I BAWB*

**578 O BLANT**

**1 O SESIYNAU**

### GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Aeth 578 o unigolion, rhwng 0 a 25 oed, ar y 'diwrnod allan i bawb' a gafodd ei drefnu gan y Rhwydwaith Rhieni.
- Dywedodd nifer o rieni nad oedd eu plant erioed wedi ymweld ag amgueddfa neu wedi bod i'r traeth oherwydd effeithiau economaidd ar ein cymunedau.
- Roedd y plant yn gallu ymgysylltu â hanes, defnyddio dychymyg ac arsylwi sut roedd pobl yn byw drwy'r oesoedd. Ar y traeth, roedd y plant yn gallu archwilio, arsylwi bywyd y môr a theimlo a dysgu gweadau, synau ac arogleuon y traeth.





# MENTER IAITH SIR CAERFFILI

**814 O BLANT**

**123 O SESIYNAU**

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Cymerodd 814 o blant, rhwng 3 a 18 oed, ran mewn 123 o sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr haf.
- Roedd gweithdai a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys: animeiddio, ioga, crefftau, dylunio ffasiwn, gemau fideo, sesiynau natur awyr agored a gweithgareddau i rieni a thwdlod.
- Cafodd gweithgareddau a chyfleoedd eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwrdd â ffrindiau o fewn eu cymuned.





# URDD GOBAITH CYMRU

**1020 O BLANT**

**27 O SESIYNAU**

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

- Cymerodd 1,020 o blant, rhwng 3 a 11 oed, ran mewn 27 o sesiynau chwaraeon gwahanol a gafodd eu cynnal yn ystod chwe wythnos gwyliau'r haf.
- Roedd plant a phobl ifanc Caerffili yn gallu cael mynediad at weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd y gweithgareddau'n cynnwys gwersylloedd aml-chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon penodol a gafodd eu darparu yn Gymraeg. Roedd y sesiynau'n para drwy'r dydd (7 awr) ac roedd hefyd sesiynau un i ddwy awr.

